Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

# Ein Gwaith yng Nghymru





Dyfrbont Pontcysyllte Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ger Wrecsam yw'r ddyfrbont hiraf ym Mhrydain a'r ddyfrbont uchaf yn y byd y gellir ei mordwyo. Mae'r strwythur rhyfeddol yn cludo Camlas Llangollen 38 metr uwchlaw Afon Dyfrdwy. Ger y ddyfrbont hon, sef y trysor yng nghoron ein rhwydwaith, y lansiwyd elusen Glandŵr Cymru ym mis Gorffennaf 2012.

# Cymru mewn rhifau

Mae ein **76 milltir** o gamlesi yng Nghymru yn gartref i **215 o strwythurau rhestredig** a rhai o enghreifftiau gorau'r byd o **dreftadaeth ddiwydiannol fyw**.

**5** Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

**4** safle cadwraeth bywyd gwyllt

**2** safle Treftadaeth y Byd

**3** heneb gofrestredig

**33** o ddyfrbontydd (25 wedi'u rhestru)

**250** o bontydd (118 wedi'u rhestru)

**130** o gwlferi

**20** o lociau rhestredig

**5** llwybr i bysgod


**3** doc sych

**15** cored afon (3 wedi'u rhestru)

**3** twnnel rhestredig

**12** adeilad rhestredig

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron, 2025, Arolwg Ordnans 100030994. © Next Perspectives, 2025. Yn cynnwys data'r Post Brenhinol, © hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Post Brenhinol, 2025. Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol, © hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron, 2025.




**£12 miliwn**
o gymorth ariannol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a CADW ers 2012

**£40 miliwn**
o wariant ar atgyweirio a chynnal a chadw ein dyfrffyrdd yng Nghymru ers 2012

**17 miliwn**
o ymweliadau bob blwyddyn

**12 miliwn**
galwyn o ddŵr yfed wedi'u trosglwyddo trwy Gamlas Llangollen i Swydd Gaer bob dydd

Tua
**10,000 o blant**
wedi ymweld â chamlesi Cymru ers 2021 fel rhan o'n rhaglen addysg

**40 milltir**
o gamlas wedi ennill statws Gwobr y Faner Werdd

**2,000**
o blant wedi cymryd rhan yn ein sesiynau diogelwch dŵr

# Cynnwys


Trawsnewid lleoedd a chyfoethogi bywydau 5

Camlas Mynwy ac Aberhonddu 8

Camlas Abertawe 12

Camlas Maldwyn 14

Camlas Llangollen 16

Yr her sy'n wynebu camlesi Cymru 18


















# Trawsnewid lleoedd a chyfoethogi bywydau

Mae'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn gofalu am 2,000 milltir o gamlesi ac afonydd yng Nghymru a Lloegr. Mae Glandŵr Cymru yn gofalu am 76 milltir ohonynt, ynghyd â'u strwythurau hanesyddol a'u cynefinoedd bywyd gwyllt cysylltiedig, gan gynnwys pum Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

**Uchod:** Amcangyfrifir bod cyfanswm y gweithgarwch economaidd blynyddol sy'n gysylltiedig â Chamlas Mynwy ac Aberhonddu yn fwy na £25 miliwn.

**Mae'r camlesi hyn yn cynnig lle i bobl ddianc, mae'n gyfle i roi hwb i'w hiechyd a'u lles, ac yn ffordd o gysylltu â byd natur, treftadaeth a phobl eraill.**

Maen nhw'n gwneud cyfraniad hanfodol at ecosystem dyfrffyrdd Cymru hefyd. Maen nhw'n cydgysylltu ag afonydd ac yn ymestyn coridorau gwyrdd, llwybrau a llwybrau seiclo, gan helpu natur i ffynnu a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol a thwristiaeth.

Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar gofleidio treftadaeth naturiol, adeiledig a chymdeithasol a sicrhau canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn unol â fframwaith deddfwriaethol Cymru. Mae'n cefnogi diffiniad datblygu cynaliadwy oddi mewn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a ddisgrifir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), a'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u cynnwys yn y ddwy.

Dywedodd Edwina Hart MBE, cyn Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: "Mae datblygu ein dyfrffyrdd yng Nghymru yn gyfle gwych i ddatblygu cyrchfannau twristiaeth llwyddiannus sy'n gallu darparu amgylchedd o ansawdd uchel i'n hymwelwyr. Yn ogystal, bydd y cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr yn cael eu defnyddio gan gymunedau lleol lle maent wedi'u lleoli a byddant yn helpu i greu incwm a swyddi lleol."

## Sicrhau buddiannau i Gymru

Ar Gamlas Llangollen yn y Gogledd, Camlas Maldwyn yn y Canolbarth, a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu a Chamlas Abertawe yn y De, rydym yn sicrhau buddiannau eang ar gyfer trigolion lleol, twristiaid a bywyd gwyllt. Mae llywodraeth genedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a phartneriaid lleol yn cefnogi ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda Sefydliad Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd i ddeall pwysigrwydd llawn y camlesi rydym ni'n gofalu amdanynt i Gymru a Lloegr. Mae'r bartneriaeth ymchwil 10 mlynedd hon eisoes wedi cynhyrchu'r adroddiad 'Waterways and Wellbeing, Building the Evidence Base Report' (2017), sy'n archwilio cyfraniad ein dyfrffyrdd at fuddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr.

Yn 2014, wrth lansio ein strategaeth 'Beyond the Towpath', cydnabu Llywodraeth Cymru allu dyfrffyrdd i sicrhau canlyniadau polisi cyhoeddus, gyda Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chymorth gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen trawsadrannol.

Yn 2015, pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o wella'r amgylchedd, yr economi a chydraddoldeb. Mae ein dyfrffyrdd yn cyfrannu 16 o'r 40 dangosydd yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Darparu cartrefi hanfodol i natur

Mae bioamrywiaeth mewn argyfwng. Dros y 30 mlynedd diwethaf gwelwyd gostyngiad o 20% ym mywyd gwyllt Cymru ac mae 18% o rywogaethau yn wynebu difodiant.

Mae ein rhwydwaith cysylltiedig unigryw o wrychoedd, dyfrffyrdd a glannau camlesi yn darparu cartref unigryw i fyd natur, ac mae'n hanfodol ar gyfer goroesiad ac adferiad bywyd gwyllt Cymru sydd dan fygythiad. Mae'r crëyr glas, gwas y neidr, llygoden y dŵr a'r ystlum ymysg y creaduriaid gwerthfawr sydd â'u cynefin ar ac wrth ymyl y dyfrffyrdd hyn o waith dyn. Ond ni fyddai'r cynefinoedd hyn yn bodoli heb ein hymyrraeth ni. Mae angen gofal cyson arnynt i'w cadw'n lân, yn wyllt ac yn llawn dŵr.

**Isod:** Agorwyd Dyfrbont byd-enwog Pontcysyllte ym 1805, ac erbyn heddiw mae'r ddyfrbont hon ac 11 milltir o Gamlas Llangollen yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'n croesawu dros 500,000 o ymwelwyr o 52 o wledydd gwahanol bob blwyddyn. Saif y ddyfrbont 38 metr uwchlaw Dyffryn Dyfrdwy, ac mae'n rhan bwysig o economi ymwelwyr Gogledd Cymru.



**De:** Dros y 12 mlynedd diwethaf, rydym wedi gwario dros £750,000 i wneud gwaith adfer helaeth ar ein dyfrbontydd ym Mhontardawe, Glanfa Goetre, Brynich (Gradd II*) ac Aberbechan (rhestredig Gradd II).



## Ar agor i bawb

Mae ein camlesi ar agor ac ar gael am ddim, gan roi cyfle i bawb fwynhau'r manteision mawr sy'n deillio o dreulio amser yn yr awyr agored mewn mannau agored gwyrdd. Mae bod yn fwy egnïol a chysylltu â phobl eraill a gyda byd natur yn helpu pobl i fyw bywydau hapusach ac iachach.

Waeth a yw pobl yn cerdded, yn seiclo, yn rhedeg, yn padlfyrddio, yn pysgota, yn gwylio bywyd gwyllt, yn canŵio neu'n teithio mewn cwch, mae ein camlesi yn lleoedd i bobl wneud ymarfer corff a gwella eu lles trwy fod wrth ymyl y dŵr. Maen nhw'n dod â chymunedau at ei gilydd ac yn darparu llwybrau diogel, hygyrch heb draffig ar gyfer teithio llesol, gan leihau'r ceir ar ein ffyrdd.

Mae dros 17 miliwn o bobl yn ymweld â'n camlesi yng Nghymru bob blwyddyn, ond rydym am i fwy o bobl o Gymru a thu hwnt fwynhau'r manteision iechyd corfforol a meddyliol sy'n deillio o dreulio amser wrth ymyl y dŵr ac ar y dŵr, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol i helpu i ddod â mwy o bobl i'n camlesi.

## Cadw hanes yn fyw

Mae camlesi Cymru yn gartref i 215 o strwythurau rhestredig gan gynnwys rhai o enghreifftiau gorau'r byd o dreftadaeth ddiwydiannol fyw.

Mae ein cynghorwyr treftadaeth wedi ymrwymo i ofalu am y lociau, y pontydd, y twneli, y dyfrbontydd, y pyst milltir a'r holl strwythurau hanesyddol eraill ar hyd ein dyfrffyrdd. Mae eu hymdrechion yn sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu rhyfeddu at y dyfrbontydd uchel, y lociau serth a'r pontydd cefngrwm hyfryd.

Mae pwysigrwydd y camlesi hyn i bobl – i'n hiechyd a'n ffyniant – ac i fywyd gwyllt yn ddiamheuol ac mae'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, cyllid Cronfa Ffyniant Bro'r DU, awdurdodau rhanbarthol a phartneriaid cyhoeddus a phreifat. Buddsoddwyd dros £12 miliwn ers 2012 ynghyd â thua £28 miliwn gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r cyllid hwn wedi bod o fudd i drigolion, economïau lleol, treftadaeth y genedl, byd natur a'r miloedd o gychwyr ac ymwelwyr sy'n dod i Gymru bob blwyddyn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid niferus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth Camlesi Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni, Cymdeithas Camlas Abertawe a Phartneriaeth Camlas Maldwyn, i ddiogelu a gwella'r dyfrffyrdd bregus a hanesyddol hyn.

Bob diwrnod o'r flwyddyn, mae ein timau a'n gwirfoddolwyr yn brysur yn atgyweirio, yn adfer ac yn gofalu am y dreftadaeth fyw hon, ac yn gofalu am amgylchedd y camlesi.

## Cadw ein camlesi ar agor ac yn fyw

Mae gofalu am ein camlesi sy'n heneiddio yng Nghymru yn her gyson. Wrth i'r hinsawdd newid, mae mwy o stormydd a llifogydd yn difrodi strwythurau hanesyddol y camlesi, gan gynnwys llwybrau tynnu, pontydd a chwlferi. Oherwydd sychder, mae gwaith brics y camlesi yn chwalu ac yn bygwth eu cyflenwad dŵr. Mae costau cynyddol a rhwymedigaethau ariannol cynyddol, ar adeg pan fo llai o gymorth ar gael gan y llywodraeth, yn gwneud ein gwaith yn fwy heriol nag erioed.

Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r camlesi hyn, i'w cadw'n agored ac yn fyw, i'w gwneud yn wydn ac yn ddiogel, gan sicrhau eu bod mor ddefnyddiol â phosibl i bobl, byd natur a'r economi. Heb rwydwaith ffyniannus o gamlesi, byddai ecosystemau'r afonydd y maen nhw'n cysylltu â nhw a'r ardaloedd gwledig y maen nhw'n pasio drwyddynt yn llai cyfoethog ac amrywiol.

Gyda'ch cymorth chi, gallwn gadw'r camlesi hyn ar agor a sicrhau bod pobl yn gallu ymweld â nhw, eu defnyddio a'u mwynhau am genedlaethau i ddod.



# Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Camlas Mynwy ac Aberhonddu yw camlas harddaf Prydain ym marn llawer, ac mae'n ymestyn am 35 milltir o Aberhonddu i Fasn y Pum Loc, Cwmbrân, gan ddilyn llinell Dyffryn Wysg trwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n denu tua thair miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn.

**Uchod:** Mae llwybrau cerdded newydd ar hyd Camlas Mynwy ac Aberhonddu, gan gynnwys ein partneriaeth 'Lawr i'r Môr' gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a'n llwybrau cerdded dwyieithog 'Cam wrth Gam' (a ariennir gan y Gronfa Dreftadaeth a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol), yn annog pobl i fynd allan a darganfod y gamlas a'i threftadaeth.

Rhoddwyd statws Treftadaeth y Byd i ardal Blaenafon a rhan o'r gamlas yn 2000 er mwyn cydnabod eu harwyddocâd hanesyddol. Mae sgarp Llangatwg wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae'n fynedfa i rwydwaith health o  ogofâu. Mae'r rhan ogleddol yn rhan o Lwybr Seiclo a Throed Pellter Hir Taith Taf.



## Treulio amser wrth ymyl y dŵr a byw bywydau egnïol

Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn rhan o lwybr poblogaidd Taith Taf, ac mae'n un o'r atyniadau mwyaf poblogaidd i ymwelwyr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dros y deuddeg mlynedd diwethaf buom yn gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd i fwy o bobl fwynhau manteision iechyd a lles bod yn egnïol ar y gamlas ac wrth ei hymyl.

Mae ein gwaith i wella llwybrau tynnu ac annog cymunedau lleol i dreulio amser wrth ymyl eu camlas leol wedi ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, pobl sy'n cystadlu yn Loteri Cod Post y Bobl, Croeso Cymru, Peak Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau a Busnes Cymru, Cyngor Torfaen a Ramblers Cymru.

Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i wella'r llwybr tynnu, gwella byd natur a chreu cyfleoedd newydd i deuluoedd lleol fod yn egnïol a manteisio'n llawn ar y ddyfrffordd hanesyddol hon.

## Dysgu ym myd natur

Mae ein camlesi yn pasio'n agos at y mannau lle rydym ni'n byw ac yn dysgu, ac maen nhw'n adnodd gwych i ysgolion a cholegau wella rhaglenni addysg a dod â dysgu yn fyw.

Mae ein hadnoddau dysgu ar-lein Fforwyr Glandŵr wedi'u cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru ac rydym yn cefnogi ymweliadau gan ysgolion a grwpiau â Glanfa Aberhonddu a Goetre. Yn ogystal â chyflwyno gwersi diogelwch dŵr, rydym yn gweithio gydag ysgolion a cholegau ar hyd y gamlas i gyflwyno gweithgareddau STEM, mentrau amgylcheddol a rhaglenni celfyddydol.



**Uchod:** Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands yn ymweld â Chamlas Mynwy ac Aberhonddu yn Aberhonddu.

**Isod:** Yn 2017, diolch i gefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, fe wnaethom adfer tair odyn galch hanesyddol yn Watton, Llangatwg a Goetre, gan helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu sgiliau atgyweirio gwaith maen traddodiadol gan gynnwys pwyntio morter calch.



## Gwella cynefinoedd bywyd gwyllt

Gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, a diolch i gyllid gwerth £2.5 miliwn o'i Chronfa Buddsoddi mewn Seilwaith Gwyrdd (yn 2016/17), rydym wedi gallu gwneud buddsoddiad sylweddol yng ngwydnwch strwythurau, cyflenwad dŵr a chynefinoedd y gamlas.

Roedd y cyllid yn gyfle i archwilio rôl y gamlas yn y dirwedd ehangach am y tro cyntaf – fel coridor ar gyfer cysylltu cynefinoedd, llwybr porthiant ac ecosystem gysylltiedig ac ategol law yn llaw ag Afon Wysg.

Mae ein gwaith ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yn esiampl sydd wedi dylanwadu ar lawlyfr 'Dyfrffyrdd a Bywyd Gwyllt: rheoli ein hamgylchedd naturiol' ar gyfer camlesi Cymru. Mae'n cynnwys cynllun rheoli coetir a gwrychoedd er mwyn ehangu cynefinoedd y pathew, ac ailagor golygfeydd hanesyddol o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan wella profiad ymwelwyr o'r gamlas. Ysgrifennwyd yr adroddiad mewn cydweithrediad â Ruth Feber o Uned Ymchwil Cadwraeth Bywyd Gwyllt Prifysgol Rhydychen.

Mae ein hecolegwyr a'n gwirfoddolwyr wedi creu ogofâu ar gyfer ystlumod yn yr odynau calch hanesyddol, gan ddenu ystlumod pedol lleiaf i'r ardal am y tro cyntaf.

**Isod:** Ar ôl iddi dywyllu, does dim llygredd sŵn na llygredd golau yn effeithio ar lawer o'n camlesi. Maen nhw'n gynefinoedd delfrydol ar gyfer ystlumod oherwydd eu cyflenwad dŵr a'u pryfed amrywiol. Yn benodol, mae rhannau coediog Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn darparu cynefin hanfodol ar gyfer nifer o rywogaethau ystlumod, gan gynnwys yr ystlum lleiaf cyffredin, yr ystlum lleiaf meinlais a'r ystlum mawr.





**Uchod:** Mae ceidwaid lociau a cheidwaid llwybrau tynnu gwirfoddol ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yn helpu i wneud ein dyfrffyrdd yn llefydd gwell i ymweld â nhw, trwy gefnogi cychwyr, casglu sbwriel, symud rhwystrau i fordwyo, ac atgyfnerthu muriau argloddiau.

## Cadw sgiliau strwythurau hanesyddol a sgiliau treftadaeth yn fyw

Mae marcwyr milltiroedd, pontydd cerrig, lociau a dyfrbontydd ar hyd pob cam o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, sy'n 225 oed, yn atgoffa ymwelwyr o orffennol diwydiannol Cymru. Mae ein harbenigwyr, prentisiaid a gwirfoddolwyr treftadaeth wedi ymrwymo i warchod a chadw'r hanes hwn.

Lansiwyd ein prosiect Sgiliau Treftadaeth ar gyfer y Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn 2014 er mwyn cefnogi hyfforddeion sy'n gweithio tuag at gymhwyster NVQ Lefel 2 i ddysgu sgiliau hanfodol ar gyfer strwythurau treftadaeth gan gynnwys morter calch, gwaith maen, sgiliau gwaith coed a sut i atgyweirio gwaith brics canrifoedd oed.

## Mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth ein strwythurau hanesyddol

Fodd bynnag, mae'r strwythurau bregus hyn, a'r gamlas ei hun, dan straen aruthrol oherwydd effaith digwyddiadau tywydd mwy dwys ac eithafol - llifogydd, sychder a thymheredd uchel. Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn gamlas 'gyfuchlin', ac yn dilyn llethrau'r bryniau, ac felly mae mwy o berygl y gallai fethu'n strwythurol. O ganlyniad, mae angen gofal mawr ar y gamlas hon.

Ers 2012, rydym wedi gwario dros £9 miliwn yn atgyfnerthu, atgyweirio ac ail-leinio rhannau o'r ddyfrffordd er mwyn atal y gamlas rhag methu.

## Sicrhau cyflenwad dŵr cynaliadwy

Mae tua 80% o'r dŵr sydd ei angen i gadw'r gamlas ar agor yn dod o Afon Wysg yn Aberhonddu. Mae'r dŵr hwn yn cael ei ddychwelyd i'r afon ar ôl iddo deithio ar hyd y gamlas. Mae'r ddwy ddyfrffordd hyn wedi'u cydgysylltu, a gyda'i gilydd mae eu hecosystem yn gryfach, gan ddarparu mwy o gynefinoedd i fywyd gwyllt a mwy o gyfleoedd ar gyfer cychod a thwristiaeth.

Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, bu'n rhaid i Glandŵr Cymru wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwyddedau i dynnu dŵr o Afon Wysg a'i hisafonydd er mwyn cyflenwi'r gamlas. Ond roedd y trwyddedau hyn yn cynnwys amodau newydd sy'n gosod cyfyngiadau sylweddol ar y cyflenwad dŵr i'r gamlas. Fe wnaethom apelio yn erbyn y cyfyngiadau hyn, gan nodi'r effaith negyddol iawn ar yr amgylchedd naturiol, y cymunedau cyfagos, cychod a'r economi leol, os nad yw'r mater hwn yn cael ei ddatrys ar gyfer yr hirdymor.



**Uchod:** Rhan o'r gamlas wedi'i draenio yn Loc Brynich ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu.

**Isod:** Mae Basn Aberhonddu ym Mhowys yn gyrchfan allweddol i ymwelwyr ar rwydwaith camlesi Cymru, gan gynnig cyfle i bobl fwynhau treulio amser wrth y dŵr, gan gynnwys teithiau cychod a seiclo ar hyd darn dwy filltir o Taith Taf ar hyd y llwybr tynnu o Fasn Aberhonddu i Loc a Dyfrbont Brynich.





# Camlas Abertawe

Mae Camlas Abertawe yn ymestyn 16.5 milltir o Abertawe i Aber-craf, a gellir mordwyo chwe milltir o’r gamlas ar hyn o bryd. Adeiladwyd y gamlas i gludo glo, deunyddiau crai a nwyddau gorffenedig yn ôl ac ymlaen o Harbwr Abertawe. Ers 1981, mae Cymdeithas Camlas Abertawe wedi gweithio i adfer y gamlas a gwella ei hamgylchedd. Mae’r gamlas yn parhau i ddarparu cyflenwad dŵr hanfodol i Burfa Nicel Vale yng Nghlydach.

**Uchod:** Yn 2018, fe wnaethom gydweithio â Chymdeithas Camlas Abertawe i sicrhau cyllid gwerth £320,000 o’r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig gan dimau’r rhaglen Datblygu Gwledig yng nghynghorau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Defnyddiwyd y cyllid i wireddu rhan gyntaf gweledigaeth 10 mlynedd i sefydlu’r gamlas fel prif gyrchfan treftadaeth, ymwelwyr a hamdden yn Ne Cymru.



**Chwith:** O ganlyniad i ymdrechion Cymdeithas Camlas Abertawe i adfer a gwella amgylchedd y gamlas, mae darn 5 milltir o’r gamlas wedi ennill dyfarniad Baner Werdd am chwe blynedd yn olynol fel rhan o Gynllun Gwobrwyo Cadwch Brydain yn Daclus.


Swansea Canal Society
Cymdeithas Camlas Abertawe

Rydym wedi gweithio gyda Chymdeithas Camlas Abertawe i ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer y gamlas, sydd wedi helpu i sicrhau gwerth bron i £1 miliwn o fuddsoddiad, gan ein galluogi i weithio tuag at ein gweledigaeth gyffredin o sefydlu'r ddyfrffordd fel prif gyrchfan treftadaeth, ymwelwyr a hamdden yn Ne Cymru.

Mae'r cyllid hwn wedi galluogi ein dwy elusen i garthu darn 1.4 cilometr o'r gamlas, sy'n golygu y gall cychod teithio ei ddefnyddio. Mae'r loc gladdedig yng Nghlydach wedi cael ei hadfer, mae darnau o'r llwybr tynnu wedi cael arwyneb newydd, ac mae digwyddiadau cymunedol yn dod â phobl newydd i'r ddyfrffordd.

## Rheoli sianeli


Mae angen rheoli sianeli dyfrffyrdd a llystyfiant cyfagos, fel coed, nid yn unig er mwyn sicrhau bod modd eu mordwyo a'u bod yn ddiogel i bobl, ond hefyd er mwyn cynnal eu gwerth o safbwynt bywyd gwyllt. Oherwydd llif araf a lefelau dŵr rheoledig, byddai dŵr agored yn cael ei golli yn y pen draw i lystyfiant, felly mae gwaith clirio chwyn neu garthu sianeli yn digwydd yn rheolaidd.



**Uchod:** Yn 2023, diolch i gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru a Chronfa y Pethau Pwysig Cyngor Sir Powys/Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Camlas Abertawe, fe wnaethom gyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned i ddathlu 225 mlwyddiant sefydlu Camlas Abertawe, gan gynnwys gorymdaith llusernau 'Goleuo'r Gamlas' ym Mharc Coed Gwilym yng Nghlydach.

**Isod:** Mae dros 40 milltir o gamlesi Cymru wedi ennill Dyfarniad y Faner Werdd®, y safon a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer rheoli mannau cyhoeddus awyr agored gwych.





# Camlas Maldwyn

Mae Camlas Maldwyn yn ymestyn 35 milltir o Gyffordd Frankton yn Swydd Amwythig i Loc Freestone ger y Drenewydd. Fe'i hadeiladwyd ar ddechrau'r 19eg ganrif i gludo calch a deunyddiau ar gyfer amaethyddiaeth, ac mae bellach yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn Lloegr ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru. Mae'n gartref i blanhigion dyfrol prin, ac mae timau o wirfoddolwyr ymroddedig wedi bod yn adfer y safle ers 1969.

**Uchod:** Camlas Maldwyn ger Ardd-lin, rhan o'r darn o'r gamlas sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae llawer o gynefinoedd y glannau wedi diflannu o'n cefn gwlad, sy'n golygu bod glannau'r dyfrffyrdd yn hynod bwysig i fywyd gwyllt.

Heddiw, mae'r llwybr tynnu 35 milltir yn gyfan gwbl hygyrch ac mae 60% o'r gamlas ar agor i gychod. Mae'r gwaith adfer yn parhau, ac mae 4.4 milltir o'r gamlas yn cael eu hailagor diolch i gyllid Cronfa Ffyniant Bro'r Llywodraeth.

Mae ein gwaith gyda Phartneriaeth Camlas Maldwyn i adfer y gamlas hon wedi derbyn cymorth ariannol sylweddol hefyd gan Gyngor Sir Powys, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.



**De:** Gwaith carthu ar Gamlas Maldwyn rhwng Pont 99 a Dyfrbont Efyrnwy, ger Llanymynech.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Powys
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO
POWERED BY LEVELLING UP
THE RARE BRITISH PLANTS NURSERY

Yn ogystal ag uwchraddio rhannau o'r llwybr tynnu, gan gynnwys darn poblogaidd sy'n rhan o Rwydwaith Beicio Cenedlaethol Sustrans, carthwyd tua 1.5 milltir o'r gamlas, a sefydlogwyd ychydig dros hanner milltir o lannau'r gamlas.

Unwaith y byddwn yn hyderus bod yr holl gynefinoedd mewn cyflwr da yn y darn o'r gamlas sydd wedi'i hadfer, bydd nifer fach o gychod yn cael eu cyflwyno'n raddol, a byddwn yn monitro effaith hyn ac yn addasu prosesau rheoli yn unol â hynny.

Mae'r dull gofalus hwn o adfer y gamlas yn ein galluogi i wireddu potensial cymdeithasol, economaidd ac ecolegol y gamlas, mewn ffordd sy'n cael ei llywio gan yr ecoleg sensitif. Heb yr ymyriadau mawr hyn, byddai ecoleg y gamlas yn parhau i ddirywio, a chael ei cholli yn y pen draw o bosibl.

## Uchafbwyntiau cadwraeth natur

Mae Camlas Maldwyn yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel Ardal Cadwraeth Arbennig, yn benodol oherwydd ei hamrywiaeth o blanhigion dyfrol.

Mae ein hecolegwyr wedi gweithio gyda gwirfoddolwyr i sicrhau bod y gamlas yn hafan ar gyfer byd natur a phlanhigion. Diolch i gyllid gwerth dros £750,000 gan ein partneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Gronfa Rhwydweithiau Natur a Belu Water, dros y degawd diwethaf rydym wedi gwella cyflwr a gwydnwch y gamlas ar gyfer rhywogaethau a warchodir, fel llyriad-y-dŵr arnofiol. Hefyd, rydym yn gweithio gyda'r Blanhigfa Planhigion Prydeinig Prin i ddeall sut y gallwn ddatblygu strategaethau cadwraeth effeithiol ar gyfer planhigion dyfrol prin.

## Cadw hanes yn fyw

Diolch i Grant Adeiladau Hanesyddol Cadw, yn 2024 aethom ati i atgyweirio Dyfrbont Restredig Gradd II Aberbechan ar Gamlas Maldwyn ger Llandysul ym Mhowys, gan ei thynnu oddi ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl. Dros y blynyddoedd, roedd llifogydd o afonydd a gollyngiadau o'r gamlas wedi cael effaith niweidiol ar y strwythur 200 mlwydd oed. Atgyweiriwyd gwagleoedd mawr yng ngwely'r gamlas, ynghyd â gwaith brics ar y pileri a'r ategwaith.

**Isod:** Caiacio ar Gamlas Maldwyn ger Redwith.





# Camlas Llangollen

Adeiladwyd Camlas Llangollen rhwng 1795 a 1808 gan Thomas Telford a William Jessop, ac mae'n ymestyn 46 milltir o Raeadr y Bedol, gan bontio Cymru â Lloegr yn y Waun, gan barhau hyd at ei chyffordd â Chamlas y Shropshire Union yn Hurleston. Mae'r gamlas yn ymdroelli trwy Fryniau Cymru a Dyffryn Dyfrdwy, gan gynnig golygfeydd godidog a champau peirianyddol rhyfeddol, ac mae'n denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd.

**Uchod:** Mae Dyfrbont y Waun ar Gamlas Llangollen yn pontio Cymru â Lloegr, ac yn cludo cychod dros Afon Ceiriog, gan groesi'r ffin i fyny yn yr awyr. Mae'n heneb gofrestredig ac yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Camlas Llangollen.

## Gwella mynediad i Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte

Yn 2009, dyfarnwyd statws Treftadaeth y Byd UNESCO i ddarn 11 milltir o'r gamlas, gan gynnwys Dyfrbont Pontcysyllte. Mae'r darn hwn rhwng Gledrid a Llangollen hefyd yn Heneb Gofrestredig ac yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae Dyfrbont Pontcysyllte a Basn Trefor ymhlith yr atyniadau mwyaf poblogaidd i ymwelwyr yn y Gogledd, ac roedd yn anodd i'r safleoedd hyn ymdopi â'r cynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr. Diolch i gyllid gwerth £4 miliwn gan Gronfa Ffyniant Bro'r DU a chymorth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, rydym yn cyflwyno nifer o welliannau, gan gynnwys pont godi newydd, angorfeydd, lle i logi cychod, canolfan addysg, a gwelliannau i lwybrau cerdded.

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO | POWERED BY LEVELLING UP | Wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | People's Postcode Lottery | Postcode Earth Trust

Mae hyn yn ategu gwaith blaenorol i wella mynediad i'r Safle Treftadaeth y Byd, gan gynnwys gwella mynediad ar gyfer beicwyr, defnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio, gosod arwyddion gwybodaeth newydd, cyhoeddi arweinlyfr cyntaf y safle, adnewyddu'r doc sych rhestredig, creu maes parcio newydd a mannau mynediad ar gyfer canŵod, uwchraddio llwybrau ac ychwanegu gatiau mynediad.

Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan amrywiaeth o bartneriaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl, Taith a Threth Tirlenwi Cymunedol WREN.

## Diogelwch ger y dŵr

Mae'r ddyfrbont drawiadol yn fan poblogaidd ar gyfer ymweliadau addysgol gan ysgolion ledled y rhanbarth. Mae ein hadnoddau addysgol wedi'u cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae ein tîm addysgol o Fforwyr yn dod â hanes ein camlesi yn fyw i gannoedd o blant a myfyrwyr bob blwyddyn, naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu allan ar y llwybr tynnu. Mae ein rhaglen diogelwch dŵr ar-lein ac wyneb yn wyneb yn helpu plant ifanc i ddeall sut i fod yn ddiogel ger y dŵr.



**Uchod:** Dysgu yn yr awyr agored gyda disgyblion Blwyddyn 4 o Ysgol Min y Ddôl yn Sir Wrecsam. Fe wnaeth y plant fwynhau gweithdy rhyngweithiol yn ymwneud â phontydd ac yn archwilio arnofio a suddo fel rhan o weithgaredd ymarferol yn gwneud cychod. Hefyd, fe wnaethon nhw ddysgu am ddiogelwch dŵr, a mynd ar daith mewn cwch ar draws Dyfrbont Pontcysyllte.

Glandŵr Cymru | **Fforwyr**



**Chwith:** Yn 2024 fe wnaethom ddraenio Dyfrbont Pontcysyllte, gan roi cyfle i'n peirianwyr gwblhau archwiliad llawn am y tro cyntaf ers 20 mlynedd. Bu ein rhaglen ddiwylliannol flwyddyn o hyd, 'Y Bont sy'n Cysylltu', yn dathlu cymunedau yn Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte trwy rannu straeon o'r ardal. Cafodd y prosiect ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin trwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.



# Yr her sy'n wynebu camlesi Cymru

Wrth i'r gaeafau droi'n gynhesach ac yn wlypach, a'r hafau yn boethach ac yn sychach, mae'r dyfodol yn edrych yn llwm i'n camlesi. Ond mae ganddyn nhw gymaint i'w gynnig i bobl sy'n byw yng Nghymru.

**Uchod:** Mae ein canolfan ymwelwyr ym Masn Trefor gerllaw Dyfrbont Pontcysyllte yn darparu gwybodaeth ar sut i archwilio'r Safle Treftadaeth y Byd, sy'n denu hanner miliwn o bobl bob blwyddyn.

Am gannoedd o flynyddoedd, mae ein camlesi wedi siapio eu trefi a'u pentrefi cyfagos, gan helpu cymunedau i ffynnu a llwyddo trwy weithgareddau fel teithiau cychod, twristiaeth, swyddi a datblygu cynaliadwy.

O sicrhau cyflenwad cynaliadwy o ddŵr yfed mewn ardaloedd â phrinder dŵr i ddarparu cyrchfannau i dwristiaid, mae ein camlesi a'n llwybrau tynnu yn rhan hanfodol a chysylltiedig o seilwaith y genedl.

## Seilwaith cenedlaethol critigol

Er mwyn parhau i fwynhau cyfraniad ein camlesi at economi Cymru, rhaid i ni sicrhau rhagor o fuddsoddiad er mwyn atal y perygl gwirioneddol y bydd ein camlesi yn dirywio ac yn dadfeilio.

Rydym wedi rhoi cipolwg i chi ar ehangder y gweithgareddau a'r partneriaethau sydd wedi bod yn bosibl dros y 12 mlynedd diwethaf yng Nghymru, diolch i gyfraniad ein gwirfoddolwyr, partneriaid, cyllidwyr a chyfranwyr anhygoel, yn ogystal â'n cyfeillion, ein cefnogwyr a'n llysgenhadon.

Mae'r camlesi a'r strwythurau treftadaeth gwerthfawr hyn yn darparu cysylltiadau hanfodol rhwng dyfrffyrdd a llwybrau gwahanol, gan ganiatáu i bobl a bywyd gwyllt symud yn rhydd ac yn ddiogel rhwng ardaloedd gwahanol.

Os ydym am weld camlesi Cymru yn parhau i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein cenedl, gan gynnwys colli bioamrywiaeth a dirywiad iechyd meddwl, mae angen i chi sefyll yn gadarn o'n plaid.



**Uchod:** Lociau Llangynidr ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu wedi'u draenio ar gyfer gwaith atgyweirio.

# 5 cam gofynnol er mwyn i'n camlesi yng Nghymru ffynnu

1. Ystyried camlesi Cymru fel rhan annatod o system afonydd iach yng Nghymru, gan fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i warchod natur a rhoi hwb i fioamrywiaeth.
2. Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod datrysiad cyflenwi dŵr cynaliadwy ar gael ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu sy'n cefnogi byd natur, cychod a'r economi leol.
3. Sicrhau bod ein camlesi hanesyddol yng Nghymru yn cael eu hariannu'n ddigonol fel bod modd gwneud gwaith atgyweirio i gadw'r camlesi hyn yn fyw.
4. Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau treftadaeth ac amgylcheddol er mwyn grymuso pobl leol i ofalu am eu dyfrffyrdd.
5. Parhau i godi ymwybyddiaeth o gamlesi Cymru fel mannau awyr agored y gellir ymweld â nhw am ddim ar gyfer teithio llesol a chysylltu â byd natur.



**Uchod:** Cyd-drefnwyd ein ras hwyaid trawsffiniol yn 2017 yn Nyfrbont y Waun ar Gamlas Llangollen gan Gyngor Sir Wrecsam.

**Isod:** Yn 2019/2020, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, aethom ati i garthu saith cilometr o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu o'r derfynfa ddeheuol bresennol yn Five Locks (Cwmbrân). Mae'r gwaith cynnal a chadw hwn yn hanfodol i sicrhau y gall  cychod barhau i deithio ar hyd y gamlas, gan greu incwm o dwristiaeth trwy'r diwydiant llogi cychod.



Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

# Ydy effaith ein gwaith a photensial ein rhwydwaith camlesi wedi'ch ysbrydoli?



CEFNOGWCH NI

## Cysylltwch â ni i drafod cyfleoedd i'n cynorthwyo a'n helpu i gadw ein camlesi ar agor ac yn fyw heddiw, yfory ac ymhell i'r dyfodol.

**canalrivertrust.org.uk/cy/cymru**

Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

**Llun y clawr blaen:** Camlas Mynwy ac Aberhonddu ym Mrynich.
**Llun y clawr ôl:** Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn Llangatwg.

Rhif elusen gofrestredig 1146792

Ebrill 2025 ICM 16134